

Mae Ysgol A yn Ysgol gymunedol gyda 513 o ddisgyblion, gyda phresenoldeb ar gyfartaledd o 92.5 y cant yn ystod y flwyddyn. Mae Ysgol A yn Ysgol gyfrwng y Gymraeg, gyda dim ond 10 y cant yn dod o gartrefi sydd yn siarad Cymraeg. Mae’r Ysgol yn gwneud yn siŵr y maent yn cael o leiaf 120 munud o addysg gorfforol yr wythnos, gyda 82 y cant yn mwynhau gwneud yr ymarfer. Mae’r Ysgol yn rhoi llawer iawn o gyfleoedd i’r plant ac yn gweithio’n agos iawn gyda’r gymuned.



Mae Ysgol A yn gweithio yn agos iawn gyda rhieni, y gymuned a’i gofalwyr. Mae’r rhieni, athrawon a disgyblion yn gweithio fel triongl, gan wneud yn siŵr mae’r disgyblion yn ganol pop peth maen nhw’n gwneud, i gwneud y gorau i’r disgyblion. Mae gan Ysgol A pholisi drws agored i gynnig cymorth i unrhyw un unrhyw bryd mae unrhyw beth yn poeni nhw neu os mae eisiau trafod unrhyw beth. Mae’r Ysgol yn cynnig wythnos “Dewch a rhiant i’r Ysgol” i roi cyfle i rieni gweld sut mae’r ysgol yn rhedeg, y gwersi sydd yn mynd ymlaen a hefyd yr holl gyfleoedd mae’r plant yn cael trwy gydol yr ysgol. Mae’r Ysgol hefyd yn cynnig gwersi Cymraeg wythnosol i rieni, sydd yn gallu helpu rhieni dysgu ei phlant gyda gwaith cartref a gwella Cymraeg. Mae disgyblion hefyd yn ystod ei amser yn yr Ysgol yn mynd i ymweld â siopau lleol, parc, mynd i’r traeth i gasglu sbwriel. Mae Ysgol A yn rhoi llawer iawn o gymorth i fusnesau lleol, trwy gasglu bwyd i roi i’r banc bwyd a chodi arian i elusennau.



Maent hefyd yn gwahodd rhieni i rannu ei arbenigedd, mae’r rhieni yn cael y cyfle i rannu sut maen nhw’n effeithio a helpu’r gymuned ac yn helpu rhoi cyswllt ar y gymuned a’r ysgol. Mae hyn hefyd yn galluogi plant feindio allan am y swydd a cyfle i chwarae rôl gyda’r gwisgoedd a offer mae’n defnyddio. Mae’r rhieni yn gallu rhannu profiadau gyda’r plant. Mae yna nyrs iechyd sydd hefyd yn dod allan yn wythnosol i hybu iechyd y plant, a hefyd yn cynnig cymorth i’r plant a disgyblion, i roi ansawdd bywyd gorau y gellid cael.



Mae Ysgol A yn defnyddio Ysgol Goedwig fel rhan o’i chwricwlwm dysgu. Mae’r Ysgol Goedwig yn agos iawn i’r Ysgol, lle mae’r plant rhan fwyaf yr amser yn mynd unwaith yr wythnos a gwneud gweithgareddau wedi cysylltu â’r themâu, os maen nhw’n gallu. Mae’r Ysgol goedwig yn rhan hanfodol o’i dysgu, yn rhoi’r cyfle iddyn nhw weithio gyda deunyddiau naturiol, rhoi cyfle iddyn nhw chwarae a datblygu ei sgiliau. Mae Ysgolion coedwig yn hollol bwysig yn addysg plant o oedran ifanc i helpu datblygu a dysgu a dechrau cysylltu gyda natur. Maent yn mynd allan ymhob tywydd i hyrwyddo ffordd iach o fyw sy’n bwysig iawn.



Mae rhieni yn cael y cyfle i chwarae rhan fawr yn ystod addysg ei phlentyn cyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol. Maent yn gwahodd rhieni am dro o amgylch yr ysgol 6 wythnos cyn iddyn nhw ddechrau, cynnig cyfarfod croesawi’r hanner tymor cyn dechrau. Mae’r rhieni hefyd yn derbyn llyfryn “Dysgu gyda Sam” ac yn cael y cyfle i dderbyn cwrs dysgu Cymraeg os nad ydyn yn gallu siarad Cymraeg. Ar ôl i blant ymgartrefi yn yr ysgol, mae’r rhieni yn derbyn cyfarfod wyneb yn wyneb i helpu gosod targedau, derbyn pecynnau cymorth os mae eisiau, gwybodaeth tric a chlic a numicon, sy’n elfennau pwysig yn ei dysgu, ac yn cael ei defnyddio llawer iawn yn Ysgol A. Bydd hefyd yn derbyn y rhestr o appiau fydd yn defnyddio yn ystod ei amser yn yr ysgol. Mae gan yr Ysgol stondin ‘nearly new’ sydd yn cynnwys dillad yn rhad ac am ddim i blant sydd yn dod o deuluoedd llai ffodus ac yn cael cyfle i ymuno gwersi coginio i’r teuluoedd bregus. Mae cwrs ‘mood mwd’ yn symudiad sydd yn cael ei defnyddio hefyd yn Ysgol A, ac yn gweithio’n dda iawn gyda’r plant i helpu rhannu emosiynau a datblygu ei sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Mae hefyd yn cynnig ‘design to smile’ i helpu brwsio dannedd, cymorth i rieni gwneud yn siŵr mae’r plant yn brwsio dannedd, a hefyd yn helpu’r plant dysgu am iechyd ei dannedd o oedran ifanc.

Er mwyn i’r Ysgol annog teuluoedd i gefnogi’r meysydd datblygu gwahanol, maent yn gwneud noson agored lle mae’n cyflwyno gweithdrefnau, themâu a rheolau. Mae’r athrawon yn gwneud noson targedau gyda rhieni yn Ionawr, er mwyn rhannu unrhyw beth sydd yn becco nhw, a gwneud yn siŵr ei fod yn agored gyda rhieni o’r dechrau. Mae hyn yn bwysig i allu rhoi’r gofal a chymorth gorau i’r plentyn yn ystod y flwyddyn. Maent hefyd yn gwneud nosweithiau hyfforddiant i rieni er mwyn helpu gyda sgiliau darllen, TGCH, Cymraeg a diogelwch y we.

Mae’r Ysgol yn cynnig boreau coffi er mwyn i athrawon a rhieni gallu mynd i godi arian ar gyfer elusennau neu fynd i wylïo ei phlant yn perfformio. A hefyd wrth i rieni cael y cyfle i gymdeithasu ag eraill, cwrdd rhieni a siarad ag athrawon os mae eisiau. Er mwyn hefyd cadw’r rhieni mewn cyswllt gyda beth sydd yn mynd ymlaen, maent yn derbyn cylchlythyr wythnosol i wybod beth maent wedi gwneud yn ystod yr wythnos. A hefyd maent yn derbyn newyddion tymhorol gydag unrhyw newidiadau, themâu ac yn dangos gwaith plant sydd wedi llwyddo dangos gwelliant a datblygiad yn ystod y tymor hwnnw.